

Hawlio Contract Canllawiau Mapio

Mapio Eitemau Hawliad

I fapio eitemau'r hawliad, cliciwch y botwm '+Mapio' a ddangosir wrth ymyl pob ID eitem.

Dod o hyd i Eitemau

Cod Eitem

Enw / Disgrifiad

Nifer Ar gael

Hawlio'r Gweithgaredd hwn?

Nifer a Hawlir

Rhif Adnabod Trafodiad

Dyddiad yr Anfoneb

Eitem wedi'i Gwblhau?

Dyddiad Cwblhau'r Gweithgaredd

Eitemau wedi'u mapio

Mapio

IN008 / D021

Ffens postyn a weiren

110 m

☒

110m

A1234

18/06/2026

☒

17/06/2026

0

+ Mapio

Bydd y Rhestr Parseli Tir yn cael ei harddangos ac yn dangos maint y cae; deiliadaeth a faint o eitemau sydd wedi'u mapio yn erbyn pob cae.

Cliciwch ar y parcel tir yr hoffech fapio eitem ynddo.

Eitemau a hawlir – Rhestr Parseli: Ffens postyn a weiren

Cadw a Dychwelyd

1 parcel

Schwanebu parcel

Canlyniadau fesul tudalen: 10 | 20 | 50

Manylion y Parcel

Manylion Mapio

SJ1

next to ty coch

Maint y Cae: 2.24 ha

Ddeiliadaeth: Yn eiddo i chi

Eitemau wedi'u mapio: 0

Hidlo parseli

Geiriau allweddol:

Ddeiliadaeth

Eitemau wedi'u mapio

☐ Popeth


☐ Yn eiddo i chi

☒ Pob un

☐ Do


☐ Naddo

Bydd y map ffotograff o'r awyr yn agor, a bydd y parcel tir a ddewiswyd yn cael ei amlinellu mewn glas.



Dewiswch y botwm 'Ychwanegu Eitem' ar ochr chwith uchaf y sgrin.

Sylwer: Ar gyfer **hawliadau Ffermio Bro – Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig**, pan fyddwch yn clicio ar y botwm 'Ychwanegu Eitem', bydd y sgriniau canlynol yn ymddangos er mwyn ichi ddewis yr eitem yr hoffech ei mapio:



Ychwanegu eitem

Pa eitem yr hoffech ei hychwanegu?

L001 Camfa Ysgol

L002 Cilbyst a Gât Ceffyl o Bren

L003 Cilbyst a Gât Mochyn o Bren

L004 Camfa Bren

L005 Gât Mochyn Daear

L006 Pibelli cyflenwi dŵr

L007 Gât Ddŵr

L008 Cafnau Dŵr

Parhau

Canslo

Ychwanegu eitem

Pa eitem yr hoffech ei hychwanegu?

L001 Camfa Ysgol


Parhau

Canslo


Gellir mapio eitemau ar ffurf hyd, arwynebedd a phwynt.

Mapio eitem ar ffurf pwynt


I fapio eitem ar ffurf pwynt, dewiswch y botwm 'Ychwanegu Pwynt' a gosodwch y cyrchwr lle rydych am fapio'r eitem a chlicio unwaith.



Yna bydd yr eitem wedi'i mapio yn ymddangos ar ochr chwith y sgrin.




Cliciwch Parhau




Mapio eitem ar ffurf hyd

I fapio eitem ar ffurf hyd, dewiswch y botwm 'Tynnu Llinell'.




Gosodwch a chliciwch y cyrchwr lle rydych am i'r llinell gychwyn.




Os ydych ar ffin y parsel neu'n agos iawn ati, bydd neges yn ymddangos yn gofyn a ydych am ddilyn ffin y parsel a gallwch ddewis ydw neu nac ydw.

Os dewiswch ydw, gosodwch y cyrchwr lle rydych am i'r llinell ddod i ben a bydd y llinell yn snapio'n awtomatig at ffin y parsel.




Cliciwch ddwywaith lle rydych am i'r llinell orffen. Bydd hyd y llinell derfynol yn cael ei dalgrynnu i'r metr agosaf. Yn yr enghraifft uchod mae'r llinell yn mesur 455.90m ac felly bydd y hyd wedi'i fapio'n cael ei dalgrynnu i 456m. Wedyn bydd yr eitem yn ymddangos ar ochr chwith y sgrin.




Os nad ydych am ddilyn ffin y parcel, dewiswch nac ydw i'r neges sy'n gofyn a ydych am ddilyn ffin y parcel.


Ni fydd y llinell yn snapio i'r ffin, a bydd gennych reolaeth lwyr dros y lleoliad. Cliciwch ddwywaith ar y llygoden er mwyn gorffen y llinell.



I ddileu llinell, cliciwch y botwm 'Dileu Llinell' a chliciwch ar y llinell binc wedi'i mapio yr hoffech ei dileu.




Bydd y llinell yn diflannu ac ni fydd bellach yn ymddangos ar y rhestr o eitemau wedi'u mapio ar yr ochr chwith.




Pan fyddwch wedi cwblhau'r mapio ar gyfer yr eitem, cliciwch 'Parhau'

Os na fyddwch yn clicio 'Parhau', bydd y cyrchwr yn parhau i fod yn weithredol ar gyfer yr eitem gyfredol, a bydd unrhyw linellau pellach a dynnir/cliciau ar y sgrin yn cael eu cynnwys yn hyd yr eitem gyda sawl ID map.




Mapio eitem ar ffurf arwynebedd


I fapio eitem ar ffurf arwynebedd, dewiswch y botwm 'Lluniadu'r Arwynebedd'



Yn wahanol i fapio hyd, ni fydd y cyrchwr yn snapio at ffin y parcel wrth fapio arwynebedd. Y ffordd hawsaf o fapio parcel cyfan yw tynnu'r llinell y tu allan i ffin y parcel.





Cliciwch ddwywaith ar y llinell a bydd yr arwynebedd yn cael ei torri i fod o fewn ffin y parcel a bydd neges yn ymddangos i'ch hysbysu am hyn.



Os hoffech fapio ardal lai o fewn y parcel, cliciwch ar y cyrchwr lle rydych am i'r arwynebedd ddechrau.


Bydd llinell binc yn ymddangos a dangosir hyd y llinell mewn metrau. Mae modd lluniadu'r arwynebedd drwy glicio'r cyrchwr sawl gwaith i ffurfio siâp sy'n adlewyrchiad cywir o arwynebedd yr eitem. Pan fydd y pwynt olaf yn ymuno â'r pwynt cyntaf, bydd y siâp wedi'i gwblhau.






Gallwch luniadu arwynebedd sawl darn o dir ar gyfer yr un eitem o fewn y parsel tir.


Bydd pob eitem wedi'i mapio yn ymddangos mewn rhestr ar ochr chwith y sgrin.




Os hoffech gael gwared ar arwynebedd wedi'i fapio, cliciwch ar y botwm 'Dileu'r Arwynebedd'



Lluniadwch yr arwynebedd yr hoffech ei dynnu o fewn y parsel




Cliciwch ddwywaith i orffen a bydd yr arwynebedd wedi'i ddewis yn cael ei ddileu o'r arwynebedd wedi'i fapio a bydd yr arwynebedd yn lleihau ar ochr chwith y sgrin.




Ar ôl ichi orffen mapio'r eitem, cliciwch y botwm 'Parhau'.

Dileu eitem wedi'i mapio


Os hoffech ddileu eitem wedi'i mapio, cliciwch ar y symbol + wrth ymyl yr eitem rydych am ei dileu o'r rhestr ar ochr chwith y sgrin.




Yna cliciwch y botwm Dileu coch ar bwys yr eitem dan sylw yn y rhestr a ddangosir ar ochr chwith y sgrin.



Bydd neges yn ymddangos yn gofyn a ydych yn siŵr eich bod am ddileu'r eitem.
'Cliciwch Parhau'



Bydd y llinell yn diflannu ac ni fydd bellach yn ymddangos yn y rhestr o eitemau wedi'u mapio ar yr ochr chwith.



Pan fyddwch wedi gorffen mapio'r holl eitemau yn y parsel tir a ddewiswyd, cliciwch y botwm Yn ôl i'r Rhestr yng nghornel dde uchaf y sgrin.



Cliciwch 'Cadw a Dychwelyd' i ddychwelyd i dudalen Hawlio Eitemau o'r Ffurflen Hawlio.

Ffurflen Contract Hawliad

ADP

Help

Cyflwyniad

Hysbysiad Preifatrwydd

Eitemau'r Hawliad - Costau Ansafonol

Eitemau'r Hawliad - Costau Safonol

Ffurflen Hawlio Contract - Sgrin Costau Staff

Cynnydd prosiect

Rhagdaliad - Adroddiad Cynnydd

Dogfennau Ategol

ATODLEN 6 - Datganiad Sicrwydd: Gweithdrefnau Gwrth-dwyll a Uywodraethu

Cyflwyno

Eitemau a hawliar – Rhestr Parseli: Rheoli prysg - mecanyddol

1 parcel

Canlyniadau fesul tudalen: 10 | 20 | 50

Manylion y Parcel

SC

UL Flat field

Maint y Cae: 1.47 ha

Ddeiliadaeth: Yn eiddo i chi

Manylion Mapio

Eitemau wedi'u mapio: 3

Cadw a Dychwelyd

Hidlo parseli

Geiriau allweddol:

Ddeiliadaeth

Popeth

Yn eiddo i chi

Eitemau wedi'u mapio

Pob un

Do

Naddo

Printio

English

Gadwel

Cadw a Dychwelyd